# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

## DYDD LLUN, 5 CHWEFROR 2024

**YN BRESENNOL (Rhithiol):** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr (Rhithiol):**
G. Davies a A. Davies

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Rhithiol):**
T. Pilarz, Cyfreithiwr Cynorthwyol;
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr;
G. Owen, Swyddog Mynediad Eithriedig;
S. Arundel, Swyddog Datblygu Mynediad Ysgolion;
M. Owen, Peiriannydd Diogelwch ar y Ffyrdd;
L.H. Jones, Cyfieithydd Ar Y Pryd (allanol);
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 2.00yp - 2.08 yp**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

### 3. COFNODION

#### 3.1. 11 IONAWR 2024 - 10.00 Y.B.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2024 gan eu bod yn gofnod cywir.**

#### 3.2. 11 IONAWR 2024 - 10.10 Y.B.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2024 gan eu bod yn gofnod cywir.**

#### 3.3. 11 IONAWR 2024 - 10.20 Y.B.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2024 gan eu bod yn gofnod cywir.**

#### 3.4. 11 IONAWR 2024 - 10.30 YB

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2024 gan eu bod yn gofnod cywir.**

**4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**5. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD M.G.B YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.**

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant ysgol am ddim i M.G.B. i ysgol nad oedd yn ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

**PENDERFYNWYD, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl am nad oedd M.G.B. yn mynychu'r ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, a hynny oherwydd dewis y rhieni.**

**CHAIR** ________________________ **DATE** ________________________

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf